



02.10.2020

Annwyl Riant/Ofalwr

Yr Ap SIMS newydd i Rieni – mynediad rhwydd at wybodaeth bwysig gan yr ysgol

Mae nawr gennym ffordd newydd gyfleus i rannu gwybodaeth gyda chi am fywyd ysgol eich plentyn. Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei chael trwy'r ap yn eich helpu i gael y diweddaraf am fywyd ysgol eich plentyn yn ogystal â chefnogi datblygiad a chynnydd eich plentyn. Gallwch gael mynediad at y system o ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur personol – unrhyw bryd, unrhyw le.

Hoffem gyflwyno hyn i ddechrau'r tymor hwn i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 ac ym Mlwyddyn 5. Bydd rhieni/gofalwyr disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cael proses bontio rwydd i'r ysgol uwchradd, gan bod y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio'r Ap i Rieni hefyd. Os oes gennych fwy nag un plentyn yn yr ysgol neu fwy nag un plentyn mewn mwy nag un ysgol sy'n defnyddio'r ap, bydd gennych fynediad at wybodaeth am eich holl blant.

Yr hyn y byddwch yn ei ganfod yn yr Ap Sims i Rieni:

- Dyddiadau tymhorau ysgol, dyddiadau HMS a manylion cyswllt ar gael dim ond trwy glicio botwm
- Mynediad i ddiweddarau eich manylion cyswllt yn electronig, i sicrhau gwybodaeth gyfoes ar gyfer cysylltu â chi mewn argyfwng
- Negeseuon pwysig gan yr ysgol, gan gynnwys atgoffa am ddigwyddiadau a chylchlythyrau
- Gwybodaeth am bresenoldeb, asesiadau a chlybiau ysgol eich plentyn

Dechrau arni gyda'r Ap Sims i Rieni

1. I ddechrau byddwn yn anfon neges e-bost cychwyn cyfrif at gyswllt blaenoriaeth 1 gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost sydd gennym i chi yng nghronfa ddata'r ysgol; yn syml, cliciwch ar y ddolen o'ch llechen, cyfrifiadur personol neu ffôn clyfar i gychwyn eich cyfrif.
2. Wedyn gallwch fewngofnodi gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr Facebook, Twitter, Google, Outlook neu Hotmail a'ch cyfrinair eich hun. Sylwer y bydd eich neges e-bost cychwyn cyfrif yn dod i ben ar ôl 14 diwrnod os na chaiff ei defnyddio ac y bydd angen i chi gysylltu â ni i ofyn am neges e-bost cychwyn cyfrif newydd, os yw wedi dod i ben. Sylwer bod eich neges e-bost cychwyn cyfrif yn unigryw i chi ac na ddylai gael ei defnyddio gan unrhyw un arall. Er ein bod yn gwahodd cyswllt blaenoriaeth 1 i ddechrau, mae croeso i rieni/gofalwyr â chyfrifoldeb rhiant ofyn am fanylion mewngofnodi ychwanegol. Os oes angen manylion mewngofnodi ychwanegol arnoch yna cysylltwch â ni ar admin.broogwr@bridgend.gov.uk i ofyn am hyn.

Wedyn naill ai:

3. O'ch ffôn clyfar neu lechen, lawrlwythwch yr ap o Google Play Store neu Apple App Store – chwiliwch am **SIMS Parent**.

Neu:

4. O gyfrifiadur personol neu ffôn Windows, mewngofnodwch ar-lein yn www.sims-parent.co.uk

Mae'r Ap i Rieni'n ddatblygiad newydd cyffrous yn ein trefniadau ar gyfer cyfathrebu gyda chi fel rhieni/gofalwyr felly rydym yn diolch i chi am eich cefnogaeth gyda hyn.

Mae canllawiau a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan yr ysgol o dan y rhan **Rhieni – Parents**.

Gyda'm dymuniadau gorau

Sharon Jayne

Pennaeth